

# Cyngor Rhondda Cynon Taf

## Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

### 2014–2015

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn iaith a diwyg gwahanol.  
I wneud cais, ffoniwch 01443 424170 neu anfonwch ebost i  
[cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk](mailto:cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk)

## **Cynnwys**

	<b>Tudalen</b>
1. Cyflwyniad	3
2. Pwy ydyn ni	4
3. Adrodd am Gydraddoldeb	4
4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol	5
5. Sut rydyn ni'n bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol	6
6. Amcanion Cydraddoldeb	21
7. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	26
8. Data Monitro Cyflogaeth	29
9. Caffael	30
10. Gwybodaeth Hygyrch	30
11. Gwaith Pellach	31
12. Manylion Cyswllt	32

## **ATODIADAU**

Atodiad 1

Data Monitro Cyflogaeth

## **1. Cyflwyniad**

Mae'n bleser i mi gyflwyno'r adroddiad cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn nodi dulliau gweithredu'r Cyngor o ran darparu gwybodaeth am ei waith ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb Cymru, gadw adroddiad blynyddol ynglŷn â sut mae e wedi cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol sydd wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen i'r Cyngor allu cyflawni'r dyletswyddau hyn.

Bydd cyhoeddi'r wybodaeth am yr holl ofynion mewn un adroddiad, yn ei gwneud hi'n haws i'r grwpiau sydd â diddordeb, weld sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb, ei oblygiadau cyfreithiol, a'r camau gweithredu sydd ynghlwm wrth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae pob rhan o'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o gynnydd y Cyngor. Mae'r adran olaf yn cynnwys manylion ynglŷn â'r gwaith y mae angen i'r Cyngor ei wneud yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwella rhai meysydd, a bydd yr angen hwn yn parhau. Mae'r Cyngor yn credu y bydd cyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn yn helpu'r Cyngor i gyflawni goblygiadau Dyletswyddau Penodol Cymru yn ogystal â'ch rhai chi fel cwsmeriaid er mwyn nodi'r meysydd sydd angen eu gwella a monitro'r cynnydd mewn perthynas â nhw.

**Y Cynghorydd Geraint Hopkins**

**Aelod o'r Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg**

## 2. Pwy ydyn ni

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymestyn ar draws ardal ddaearyddol fawr ac mae ganddo boblogaeth o dros 234,000 o bobl. Cyngor Rhondda Cynon Taf yw cyflogwr pennaf yr ardal leol a'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru ac mae'n cyflogi'r nifer fwyaf o bobl yn yr ardal leol. Mae 80% o'i weithwyr hefyd yn byw yn o fewn ffiniau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymrwmo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod hyn yn cael eu mynegi yn narpariaeth ein gwasanaethau ac ein harferion cyflogaeth.

Ein gweledigaeth ar gyfer Rhondda Cynon Taf:

*Bydd Rhondda Cynon Taf yn gymuned lle bydd pawb sy'n byw, gweithio neu'n ymweld â'r ardal yn manteisio ar safon bywyd gwell. Byddan nhw'n cyflawni eu potensial wrth helpu datblygu a diogelu'r ardal er lles eraill.*

Cefnogwyd hyn gan ein gwerthoedd, sy'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Gonestrwydd
- Didwylledd
- Atebolrwydd
- Gwasanaethau
- Cludo
- Parch

Mae'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan 75 o aelodau etholedig ac mae'n gweithredu system Cabinet. Mae gan y Cyngor Garfan Rheolwyr Corfforaethol sy'n cael ei harwain gan y Prif Weithredwr, ac mae Uwch Gyfarwyddwyr yn mynychu ei chyfarfodydd. Mae 11,450 o weithwyr yn cael eu cyflogi mewn amryw o feysydd gwasanaeth a swyddi yn rhan o'r cyfadrannau canlynol:

- Cyfadran y Prif Weithredwr
- Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
- Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng flaen
- Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

## 3. Adrodd am Gydraddoldeb

Prif ddiben yr Adroddiad Blynyddol hwn yw cyflawni gwahanol ddyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor er mwyn cofnodi ei gynnydd o ran cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod pob un o'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cael eu trin dan ddyletswyddau penodol Cymru, yn

cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y cyfnod 1 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015.

### **Mae'r rheoliadau yn mynnu'r canlynol:**

Rhaid bod adroddiad 2014/15 yn nodi:

- *Camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd er mwyn nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol*
- *Sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth yma wrth gwrdd â 3 nod y ddyletswydd gyffredinol*
- *Unrhyw resymau dros beidio â chasglu'r wybodaeth berthnasol*
- *Datganiad ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol*
- *Gwybodaeth benodol ynglŷn â chyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog.*
- *Cynnydd o ran cyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr awdurdod*
- *Datganiad o ba mor effeithiol yw camau gweithredu'r awdurdod tuag at gyflawni pob un o'u hamcanion cydraddoldeb.*

## **4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol**

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y Cyngor (a sefydliadau'r sector cyhoeddus) wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau fel eu bod nhw'n rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

- Gael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu (disgrifiad o'r nodweddion gwarchoddedig i'w gweld isod).
- Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

### **Nodweddion Gwarchoddedig**

Dyma'r term sy'n cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf Cydraddoldeb i nodi'r gwahanol bethau sy'n gallu effeithio ar sut y caiff pobl eu trin, a gall olygu y bydd pobl yn dioddef gwahaniaethu. Diben y gyfraith yw diogelu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Rhyw – dynion a menywod
- Oedran – yn ifainc ac yn hen
- Anabledd - pob person anabl

- Ailbennu rhyw – pobl a gafodd eu geni yn y rhyw anghywir
- Hil - pobl o unrhyw hil, cenedligrwydd, neu dras ethnig neu genedlaethol
- Crefydd neu Gred - mae hyn yn cynnwys unrhyw grefydd neu ddiffyg crefydd
- Cyfeiriadedd Rhywiol - sut mae pobl yn teimlo yn ogystal ag ymddwyn o ran pobl o'r un rhyw, rhyw arall neu'r ddau ryw.
- Beichiogrwydd a Mamolaeth - o'r adeg y mae menyw yn dod yn feichiog

Mae hefyd angen rhoi sylw dyledus ar gael gwared ar wahaniaethu mewn perthynas â phriodasau a phartneriaethau sifil.

Wrth feddwl am sut i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig perthnasol a rhai sydd ddim yn eu rhannu, rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl am yr angen i:

- Cael gwared ag anfanteision, neu'u lleihau, sy'n wynebu pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
- Diwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl hynny dydyn nhw ddim yn eu rhannu
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae niferoedd y bobl o'r fath sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl yn arbennig am sut y bydd e'n mynd i'r afael â rhagfarn ac yn hyrwyddo dealltwriaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud i fodloni gofynion y Ddyletswydd Gyffredinol.

## **5. Sut rydyn ni'n bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol**

Caiff gwybodaeth berthnasol ei hystyried i ddangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Gall gwybodaeth gynnwys data o ffynhonellau lleol ac/neu fewnol megis arolygon i gwsmeriaid, fforymau cymunedol neu Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â data o ffynhonellau cenedlaethol ac/neu allanol megis gwybodaeth cyfrifiad, adroddiadau ymchwil ac ystadegau ynghylch troseddau casineb.

### **Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol**

Wrth ystyried pa wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys yn yr adroddiad, edrychodd y Cyngor ar yr wybodaeth a gafodd ei hystyried yn ystod cyfnod datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Galluogodd hyn i'r Cyngor fyfyrion a monitro p'un ai fod y wybodaeth dal yn briodol wrth ei gynorthwyo i ddarparu Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol.

Wrth adolygu'r amcanion cydraddoldeb, edrychwyd ar ddeilliannau monitro chwarterol a materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau cydraddoldeb blynyddol blaenorol i nodi a oedd yr amcanion yn dal yn berthnasol.

Am fanylion llawn, ewch i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y Cyngor:

<http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/EqualityandDiversity/StrategicEqualityPlan.aspx>

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn dal i fod yn berthnasol i ddarpariaeth y Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Mae dogfennau mewnol yn nodi'r wybodaeth ystadegol sy'n gallu cael ei defnyddio er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu neu at ddibenion cymharu er mwyn nodi gwelliannau neu feysydd ar gyfer gwella. Mae strategaethau mewnol a'u cynlluniau gweithredu yn rhoi gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn darparu ei flaenoriaethau. Mae gwybodaeth allanol, gan gynnwys gwybodaeth sydd â chyd-destun cenedlaethol, yn darparu data i'r Cyngor sy'n gallu cynorthwyo wrth ddatblygu polisiau a dulliau gweithredu priodol a pherthnasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad dim ond y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Er ei fod yn ddefnyddiol iawn, bydd gan feysydd gwasanaeth yr wybodaeth briodol hefyd a allai cynorthwyo'r Cyngor i nodi sut maen nhw'n cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. I gasglu'r wybodaeth hon, cynhaliwyd arolwg i gael gwybodaeth berthnasol o feysydd gwasanaeth.

Mae gan y Cyngor Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae ei ganlyniadau yn cyfrannu at yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal â hyn, mae data monitro cyflogaeth o system Adnoddau Dynol y Cyngor (sef Vision ac e-recruitment) wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r wybodaeth berthnasol. Noder bod gwybodaeth monitro cyflogaeth yn cynnwys athrawon a phawb sy'n gweithio mewn ysgol.

### **Defnydd o Wybodaeth**

Wrth ystyried pa wybodaeth y dylid ei defnyddio, roedd yn bwysig nodi arferion da ar draws y meysydd gwasanaeth er mwyn dangos bod ymrwymiad i gydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd meysydd i'w gwella a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn adran 'gwaith pellach' yr adroddiad hwn.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Cais am Wybodaeth ar Gydraddoldeb Flynyddol gan Feysydd Gwasanaeth (2014/2015)

- Darpariaeth Gwasanaethau/ Prosiectau (2014/2015)
- Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2015/16
- Arferion cyflogi
- Rhaglen Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Cyflawni Newid - Cynllun Integredig Sengl RhCT (2013)
- Cynllun Cyflawni Blynnyddol y Cyngor ar gyfer (2014)
- AEGau (2014/2015)
- Gwybodaeth monitro Cyflogaeth (2014/2015)
- Monitro a Darparu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2014/2015).

## **Gwybodaeth ar Gydraddoldeb gan Feysydd Gwasanaeth**

Roedd engreiffiau o arfer da i'w gweld mewn nifer o feysydd gwasanaeth, a gynorthwyodd y Cyngor i fodloni dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys 'cipolwg' o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni drwy'r Cyngor.

## **Beth rydyn ni wedi'i wneud i ddileu gwahaniaethu**

Mae gan **Wasanaeth Celfyddydau Rhondda Cynon Taf** raglen cyfranogiad mynediad agored ac mae perfformiadau panto a chlybiau ffilmiau misol i blant a theuluoedd yn cael eu cynnal yn Theatr y Colisëwm. Mae'n gartref i gyd-gynyrchiadau a pherfformiadau Cymraeg. Mae'n cynnig perfformiadau matinée ar gyfer oedolion hŷn (rhaglen Danteithion y Dydd). Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno cynllun Hynt yn ei ddau leoliad, sef Theatr y Parc a'r Dâr a Theatr y Colisëwm. Mae'r cynllun Hynt yn gynllun mynediad cenedlaethol newydd sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celf yng Nghymru i wneud yn siŵr bod cynnig arbennig ar gael bob amser i ymwelwyr â nam neu sydd ag anghenion o ran mynediad, a'u gofalwyr neu eu cynorthwywyr personol.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig cyfleoedd arbennig drwy'r rhaglen Celfyddydau Ieuentid a rhaglen Cerddoriaeth Ieuentid SONIG, a gafodd ei chomisiynu gan Deuluoedd yn Gyntaf.

Mae **Cymunedau yn Gyntaf** wedi cynnal archwiliad hygrychedd. Mae holl leoliadau a ddefnyddir gan Glwstwr y Porth yn gwbl hygrych i'r cyhoedd. Mae lleoliadau mewn clystyrau eraill yn cynnig trefniadau amgen addas i unigolion i sicrhau bod gweithgareddau a phrosiectau yn gwbl gynhwysol.

Mae holl adeiladau **Gwasanaeth Dysgu yn y Gymuned** yn gwbl hygrych i'r cyhoedd. Mae holl ddeunyddiau i'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg ac ar gael mewn fformatau eraill ar gais, fel Braille. Mae amserlenni cyrsiau sydd ar gael yn cael eu cynllunio ar y cyd â phartneriaid i sicrhau nad oes darpariaeth yn cael ei dyblygu a bod darpariaeth ar gael ar wahanol adegau a dyddiau o'r wythnos i



ddiwallu anghenion amrywiol. Trefnir oriau agor llyfrgelloedd mewn clystyrau i sicrhau bod un llyfrgell ar agor mewn ardal pan mae llyfrgelloedd eraill ar gau.

Mae **Gofal i Gwsmeriaid** yn darparu mynediad i'r cyhoedd drwy drefnu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer cyngor amrywiol. Mae'n defnyddio Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill, sy'n ddibynadwy ac o ansawdd da. Mae'r gwasanaeth wedi paratoi gwybodaeth ar 'DaisyDisk'. Caiff mynediad corfforol i wasanaethau ei adolygu ar hyn o bryd i ddarparu'n well ar gyfer cwsmeriaid anabl. Darperir mynediad ar gyfer dosbarthu bathodynau glas ac allweddi Radar mewn Canolfannau IBobUn. Mae'r ganolfan gyswllt yn darparu llinell synhwyrdd, a gall gyfeirio cwsmeriaid yn uniongyrchol i Garfan Materion y Synhwyrdd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae hygyrchedd y wefan wedi'i achredu'n annibynnol, felly, fe all pob defnyddiwr fanteisio ar ei gwybodaeth a'i gwasanaethau. Mae ardal o'r Ganolfan Alwadau yn cefnogi larymau panig ar gyfer yr henoed/pobl anabl neu ddiodefwr trais yn y cartref.

Mae'r **Gwasanaeth Addysg a Chyfranogiad** wedi'i ffurfweddu i ddarparu gwasanaethau ar adegau i ddiwallu anghenion unigol, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mae rhan o'r gwasanaeth yn derbyn grant ar gyfer ennyn diddordeb plant Sipsiwn a Theithwyr mewn addysg a chaiff cysylltiadau cadarnhaol ag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr eu sefydlu. Mae'r prosiect hwn wedi paratoi darpariaeth bwrpasol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr benywaidd sy'n wynebu rhwystrau diwylliannol o ran mynychu'r ysgol uwchradd. Mae'r prosiect yn cysylltu'n rheolaidd â nhw.

Mae meysydd eraill o'r gwasanaeth ar flaen y gad mewn perthynas â sicrhau Nod Hyrwyddwyr Addysg Stonewall, gan weithio ochr yn ochr ag ysgolion.

Mae datblygu a rheoli'r Proffil Asesu Bregusrwydd o fewn y gwasanaeth hefyd yn nodi a chefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio oddi wrth ddysgu o ganlyniad i'r rhwystrau economaidd-gymdeithasol maen nhw'n eu hwynebu. Mae'r Proffil Asesu Bregusrwydd wedi ein galluogi i symud o ganolbwyntio ar aelodaeth y person ifanc o grŵp penodol sy'n agored i niwed, a thuag at ganolbwyntio ar effaith yr aelodaeth honno arno ef.

Mae **Cyllid Gweithredol** yn wasanaeth cymorth ac yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer cwsmeriaid. Mae hefyd yn trefnu i'r rheiny sydd â nam ar y golwg gael gohebiaeth mewn Braille, ffont mawr neu DaisyDisk ac ati. Mae gyda ni swyddog a all helpu'r sawl sy'n hawlio sydd efallai yn ei chael hi'n anodd llenwi ffurflenni cais neu sy methu gadael eu cartrefi i fynd i Ganolfan IBobUn. Rydyn ni'n tynnu lluniau unrhyw dystiolaeth sydd ei hangen i brofi'u cais. Pan mae Canolfannau IBobUn ar gau, mae'r gwasanaeth yn ymdrin â chwsmeriaid sy

methu mynd i'r canolfannau yn ystod eu horiau agor o ganlyniad i amgylchiadau personol, cyfrifoldebau gofalu, gwaith ac ati.

Mae'r Cyngor yn gweithredu ymyriad ffysio unigryw ar gyfer gweithwyr. Ei amcan yw lleihau straen, pryder a lefelau iselder ysgafn. Yn wreiddiol, rhaglen beilot oedd hon. Erbyn hyn mae'n cael ei chynnal bob chwarter ac mae'n cynnwys acwbigio ac ymarfer corff erobeg gydag elfen addysgol.

Caiff **Gwasanaethau Gofal y Strydoedd a Gwastraff** eu darparu i holl drigolion (casgliadau gwastraff ac ailgylchu), yn ogystal â gwasanaethau arbenigol ychwanegol sydd ar gael i grwpiau penodol (cewynnau, cynllun gwastraff anymataliaeth, casglu gwastraff clinigol). Maen nhw wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru i gyfieithu taflenni ymwybyddiaeth mewn nifer o ieithoedd i ddiwallu gofynion poblogaeth aml-ddiwyllyannol myfyrwyr Trefforest, gyda'r nod o fynd i'r afael â gwastraff a materion ailgylchu yn y gymuned.

Cynigir cymorth i drigolion anabl mewn perthynas â chasgliadau gwastraff/ailgylchu megis cymorth codi biniau ar gyfer trigolion sydd ag anawsterau symudedd a lwfansau bagiau du ychwanegol ar gyfer trigolion sy methu trefnu'u gwastraff oherwydd nam ar eu golwg.

Mae'r Cyngor yn bartner yng **Ngwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru** ac mae gydag e Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth priodol drwy Heddlu Gwent. Yn ystod 2014/15, cynnyddodd nifer y ceisiadau yn sylweddol. Cafodd 422 o geisiadau eu gwneud drwy'r gwasanaeth. Cafodd 21 o ieithoedd eu defnyddio, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain. Mae adborth gan feysydd gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae defnydd o'r gwasanaeth yn cynyddu bob blwyddyn.

### **Beth rydyn ni wedi'i wneud i hybu cyfle cyfartal.**

Mae'r Cyngor yn parhau gyda'i ymrwymiad at y **Cyfamod Cymunedol**. Mae'r Cyfamod Cymunedol yn ddatganiad gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng cymuned sifil Rhondda Cynon Taf a'r Gymuned Lluoedd Arfog Lleol. Mae'r addewid yn cydnabod y parch deuol rhwng y Cyngor, ei asiantaethau partner, ei gymunedau a'n Personél Lluoedd Arfog (gwasanaethu ac ymddeol) a'u teuluoedd.

I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod:

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/ArmedForcesCovenant/Communitycovenantgeneralinformation.aspx>

Mae **Gwasanaethau Celfyddydau RhCT** yn cynnig cynllun bancio amser mewn cysylltiad â Spice a Chynllun Sherman 5 ar gyfer rhaglen yn Theatr y Colisëwm a Theatr y Parc a'r Dâr. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i raglennu perfformiadau

a ffilmiau LGBT 3 gwaith y flwyddyn ac mae'n gweithio gyda Rhwydwaith Staff LGBT i hyrwyddo hyn. Mae iaith arwyddion Prydain wedi'i hymgorffori yn y panto Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gweithdai i'w cynnal ochr yn ochr â pherfformiadau ar gyfer pobl ifainc anabl, e.e. Gweithio gyda Hijinx, ac mae'n chwilio am adnoddau allanol i ddarparu rhaglen o ddarpariaeth wedi'i thargedu e.e. Gweithdai 'Bod yn Greadigol Weithgar' gyfer plant a phobl hŷn sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi oriau dydd/cartrefi gofal. Mae'r gwasanaeth yn cynnal gwerthusiad ac ymchwil ar hyn o bryd i wybod y rhwystrau mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gwasanaeth.

Nod rhaglen **GofaliWaith** yw darparu a rhoi anogaeth a chefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal, iddyn nhw gael adnabod, nodi, cyrchu, a defnyddio ystod o wahanol gyfleoedd hyfforddi er mwyn sicrhau'u bod yn barod i fyd gwaith ac yn medru darparu ar eu cyfer hwy'u hunain.

Mae cydlynwyr rhaglen GofaliWaith yn rhoi cymorth i bobl ifainc ddefnyddio'r rhaglen. Mae lleoliadau gwaith hefyd yn cael eu darparu gan sefydliadau corfforaethol a phreifat. Mae cynlluniau dysgu unigol yn cynorthwyo cynllunio llwybrau gyrfa. Mae ystod eang o hyfforddiant achrededig yn cael ei ddarparu i gefnogi hyn.

Prif amcan rhaglen GofaliWaith yw sicrhau bod pobl ifainc sy'n byw mewn gofal ac sy'n gadael gofal yn Rhondda Cynon Taf yn derbyn cymorth unigol ac unigryw er mwyn gwneud y mwyaf o'u potensial.

Mae **Dysgu yn y Gymuned** yn cynnig cyrsiau arbenigol i bobl sydd ag amrywiaeth o anabledau dysgu. Caiff grwpiau arbenigol eu hwyluso mewn canolfannau, megis Grwpiau Alzheimer's. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u prynu er mwyn sicrhau bod grwpiau darllen amgen yn cael eu cynnwys (grwpiau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg neu'u clyw). Trefnir i fysiau Travol fynd â grwpiau penodol i lyfrgelloedd ar gyfer gweithgareddau. Cynnigir gwasanaethau 'yn gaeth i'r cartref' ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy methu gadael eu cartrefi a llyfrgelloedd symudol ar gyfer y rheiny sy methu teithio i lyfrgell sefydlog.

Cafodd **Cynllun Beicio i'r Gwaith** ar gyfer gweithwyr RhCT ei ailgyflwyno yn 2014. Ar y cyfan, mae bron 400 aelod o staff wedi manteisio ar y cynllun ers ei gyflwyno yn 2011.

Mae beicio yn weithgaredd hawdd sy'n gallu gwella eich iechyd a ffitrwydd yn sylweddol. Drwy ymuno â'r cynllun, llwyddodd staff i wneud y canlynol:

Arbedion treth ar feic ac offer newydd  
Ymarfer corff yn rheolaidd er mwyn cadw'n heini ac yn iach  
Arbed arian ar docynnau bws, trên a chostau tanwydd

Lleihau olion traed carbon

Cafodd y cynllun ei gynnal ar y cyd â Halfords. Ond, o wrando ar adborth gan ddefnyddwyr y cynllun, roedd hefyd gan staff hawl i ddefnyddio darparwyr lleol os oedden nhw eisiau.

Cafodd y **Cylch Trafod Materion Anabledd** ei sefydlu o ganlyniad i adborth o'r Gynhadledd Anabledd Estyn Allan yn 2003. Mae'r Cylch Trafod yn monitro cyflwyno cynllun gweithredu y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cyfrannu'n rheolaidd at ystod eang o ymgynghoriadau e.e. y broses gosod cyllideb ar gyfer y Cyngor a mentrau Llywodraeth Cymru megis Fframwaith ar gyfer Byw'n Annibynnol.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn rhoi gwybod i aelodau o'r cylch am eitemau a all fod o ddiddordeb iddyn nhw. Mae hyn wedi arwain at aelodau yn cyfrannu at faterion megis gwelliannau i orsafoedd trên lleol.

Mae **Grŵp ar gyfer Swyddogion Materion Anabledd** yn parhau i gwrdd. Mae'r gweithgor yn cynnwys swyddogion sydd un ai'n darparu gwasanaethau i bobl anabl yn uniongyrchol neu'n cyfrannu at sicrhau gwasanaethau sy'n fwy hygyrch, neu fod elfen o'u swydd yn cynnwys delio â materion anabledd.

Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, nodi arferion gorau a hyrwyddo cyfathrebu mewnol.

Mae Carfan **Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant** yn cyflwyno Rhaglen Gyrfaoedd a Byd i holl ysgolion uwchradd yn Rhondda Cynon Taf. Darperir y rhaglen i bob disgybl yn ysgolion uwchradd RhCT. Fel rhan o'r rhaglen, darperir sesiynau ar agweddau negyddol lle y trafodir yr hyn mae 'rhagfarn' ac 'ystrydebau' yn ei olygu. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn ystyried ystrydebau ar sail rhyw ac yn anelu i weddnewid y canfyddiad fod rhai swyddi dim ond yn agored i grwpiau penodol o bobl. Darperir sesiynau hefyd ar bwysigrwydd parchu eich hun ac eraill. Mae'r rhaglen yn hybu cyfle cyfartal ac yn mynd ati i annog unigolion i ddilyn eu breuddwydion, gan ddiystyrru hen ragfarnau, e.e. mentrau ennyn diddordeb merched mewn peirianeg.

Mae gan y **Gwasanaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad** sawl Cytundeb Lefel Gwasanaeth â phrosiectau lleol i annog cyfranogiad. Mae Prosiect VIVA! yn sicrhau pobl ifainc ag anableddau yn cael cymorth priodol i fanteisio ar raglenni ymgysylltu ieuencid y brif ffrwd. Mae'r gwaith gyda Phrosiect Cynhalwyr Ifainc yn sicrhau bod pobl ifainc sydd â chyfrifoldebau gofalu yn gallu manteisio ar ddarpariaeth y brif ffrwd. Mae'r cytundeb gyda Menter Iaith yn sicrhau bod modd i bobl ifainc fanteisio ar Fforymau Ieuencid (yn unol ag Erthygl 12 CCUHP) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae **Chwaraeon Cynhwysol** yn Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am nifer o glybiau sydd eisoes yn cynnig amrywiaeth o weithgarwch a gweithgareddau chwaraeon i bobl anabl mewn sefydliadau, canolfannau, lleoliadau, a sefyllfaoedd anabled a chynhwysu. Ymhlith y rhain ceir pêl-droed, beicio, nofio, a bowlio

Mae **Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol** yn gweithio ochr yn ochr â'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i baratoi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i roi sylw dyledus i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae paratoi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu i ddarparu tystiolaeth o'r gofyniad hwn. Felly, mae'n ddogfen allweddol i sicrhau bod eraill yn deall effeithiau nodweddion gwarchoddedig, yn arbennig yng ngoleuni newidiadau/toriadau i wasanaethau sy'n effeithio ar gymunedau a defnyddwyr gwasanaethau, a sicrhau bod effeithiau o'r fath yn cael eu nodi a bod mesurau lliniaru priodol ar waith i ddileu unrhyw effaith negyddol.

Mae **Fforwm Pobl Hŷn** wedi hyrwyddo nifer o brosiectau eleni, gan gynnwys:

- Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn
- Wythnos Gwypau
- Hyrwyddo pigiadau fflw
- Cyngor Ariannol
- Cydweithfeydd a Banciau Bwyd
- Cynlluniau Cyflogi ac Ailhyfforddi
- Cyfleoedd Gwirfoddoli.

**Caffael** Drwy weithio mewn partneriaeth â chomisiynwyr a chydweithwyr gofal cymdeithasol, rydyn ni wedi gallu datblygu dulliau sy'n mynd ati i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn prosesau tendro, gan eu galluogi i ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth posibl a darparu cyfle iddyn nhw helpu i lunio cytundebau'r Cyngor.

Dyma rai enghreifftiau:

- Cytundeb Gwasanaethau Byw â Chymorth - proses ymgynghori annibynnol gyda defnyddwyr gwasanaeth, gan roi cyfle iddyn nhw roi adborth ar ddarpariaeth gwasanaethau cyfredol, awgrymu gwelliannau a datblygu cwestiynau cyfweliad yn rhan o werthusiadau tendro.
- Fframweithiau Plant sy'n Derbyn Gofal Cymru Gyfan - cyd-gynhyrchu gyda chynrychiolwyr pobl ifainc, gan ganiatáu i bobl ifanc ymgorffori deilliannau argymhellir yn y fframwaith, yn ogystal â chreu panel pobl ifainc i gyfweld â darparwyr yn ystod y cam gwerthusiadau tendro.

- Cytundeb Cynhalwyr Ifainc - dull cyd-gynhyrchu sy'n caniatáu pobl ifainc i helpu i ddatblygu a llywio'r gwasanaeth.

Mae'r **Rhaglen Gwaith dan Hyfforddiant** wedi'i hanelu at blant sy'n gadael gofal. Ei hamcan yw darparu sail gadarnhaol ar gyfer datblygiad eu dyfodol ac mae'n dangos ymrwymiad y Cyngor at ei swyddogaeth yn Rhiant Corfforaethol.

Cafodd y rhaglen ei datblygu gan Adnoddau Dynol mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ôl-ofal. Mae'n rhaglen ddatblygu hyblyg sy'n sicrhau bod anghenion newidiol y bobl ifainc yn cael eu diwallu a bod y rhaglen yn cwrdd â'i hamcanion i wella deilliannau cyflogaeth tymor-hir i bobl ifainc sy'n gadael gofal.

### **Beth rydyn ni wedi'i wneud i feithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau o bobl**

Cafodd y **Mesur Strategaethau ar gyfer Cynhalwyr** ei chyflwyno y llynedd, ynghyd â phecyn cymorth e-ddysgu 'Ymwybyddiaeth Cynhalwyr'. Cafodd y pecyn cymorth ei gynhyrchu gan y Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr a Chyngor Rhondda Cynon Taf er mwyn codi ymwybyddiaeth a chydabod y staff hynny sydd â chyfrifoldebau gofal ar draws yr ardaloedd.

Cafodd **Amcanion Cydlyniant Cymunedol** eu pennu ar gyfer 2014. Roedd y rhain yn gyfuniad o nodweddion cyffredin ar draws cynlluniau gweithredu cyfredol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Gweler yr amcanion isod:

Amcan 1 - Adeiladu rhwydwaith gadarn o weithgorau i reoli a darparu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf.

Amcan 2 - Cydlyniant Cymunedol Prif Ffrwd drwy gysylltu a mewnosod yn y Cynlluniau Integredig Sengl a strategaethau allweddol lleol eraill ar draws Cwm Taf.

Amcan 3 - Rhoi gwybodaeth ynghylch pynciau sy'n gysylltiedig â chydlyniant cymunedol ar draws Cwm Taf.

Amcan 4 - Gwella cyfleoedd i adrodd am densiynau yn y gymuned, sy'n cynnwys profiadau o drosedd casineb a pha mor ymatebol ydy unigolion a grwpiau i radicaliaeth.

Mae **Carfan Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant** drwy gydol eu rhaglen mewn ysgolion, wedi cyflwyno neges gwrth-fwlio. Mae hyn yn amlwg iawn yn ystod sesiynau "Parchu eraill". Darperir sesiynau penodol yn ystod yr ymgyrch gwrth-fwlio genedlaethol.

Mae nifer o ysgolion wedi ymgysylltu â'r cynllun 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' sydd wedi cynnal gweithdai i'w disgyblion.

Ym mis Ionawr 2015, nododd y Cyngor **Ddiwrnod Coffáu'r Holocaust** gydag achlysur i staff yn Llyfrgell Aberdâr, mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru. Dadorchuddiwyd plac glas sy'n nodi man lle'r oedd Synagog yn Aberdâr. Daeth aelodau o'r gymuned Iddewig i'r achlysur dadorchuddio plac a siaradodd y Rabi Rose. Roedd yr achlysur yn coffáu'r bobl a gafodd eu llofruddio yn ystod yr Holocaust a'r hil-laddiadau a ddilynodd. Roedd hwn yn achlysur cyfoes a oedd yn berthnasol i droseddau casineb heddiw. Yma, codwyd ymwybyddiaeth am sut i adrodd am Droseddau Casineb yn Rhondda Cynon Taf. Cyfrannodd Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr (yr Eglwys yng Nghymru) ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg at yr achlysur. Cefnogodd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Ddiwrnod Coffáu'r Holocaust drwy drefnu arddangosfeydd llyfrau i ymwneud â'r achlysur.

Mae'r **Fforwm Amrywiaeth Amlasiantaethol (FfAA)** yn cael ei gynrychioli gan sefydliadau statudol, gwirfoddol a chymunedol. Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cael eu cynrychioli yn ystod cyfarfodydd, gan gynnwys y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Bartneriaeth Cymunedau Diogel, y Gwasanaethau Mynychu'r Ysgol a Lles, Addysg a Throseddau Pobl Ifainc.

Mae'r FfAA yn cwrdd bob 2 fis. Yma, mae ffigurau troseddau casineb yn cael eu cofnodi a'u trafod. Mae atebion amlasiantaeth yn cael eu trafod, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno ynghylch sut mae pob plaid yn cyfrannu at Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Bob blwyddyn, mae'r FfAA yn cynnal cystadleuaeth creu calendr i ysgolion cynradd sy'n hyrwyddo perthnasau da rhwng grwpiau gwahanol. Thema Calendr 2015 oedd 'gwrth-fwlio' a oedd ynghlwm wrth yr ymgyrch Wythnos Genedlaethol Gwrth-fwlio.

Mae **Grwpiau Byw i Fyw** wedi cael eu sefydlu ar gyfer pobl o bob oed a gallu i fwynhau cwmni pobl eraill mewn amgylchedd diogel a chroesawgar. Mae ethos Byw i Fyw yn gynhwysfawr iawn (pob oed, gallu, anabledd) ac yn cynnig croeso cynnes i bobl fel eu bod nhw'n gallu gwneud ffrindiau a mwynhau.

Ffocws Byw i Fyw yw rhoi hwb i gryfderau eraill fel eu bod nhw'n gallu mwynhau bywyd dim ots beth sydd wedi digwydd iddyn nhw yn y gorffennol. Mae aelodau presennol yn mwynhau'r grwpiau cymaint eu bod nhw'n eu hystyried yn uchafbwynt wythnosol. Mae aelodau yn amrywio o bobl yn eu 20au i'w 90au. Rhaid bod aelodau yn ystyriol tuag at eraill, yn enwedig os oes ganddyn nhw broblemau symudedd, meddygol, gweledol neu broblemau clyw ac ati. Mae pob un sy'n mynychu yn haeddu parch a chyfeillgarwch.

Mae'r rhaglen **Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall** yn fforwm arferion da i gyflogwyr ynghylch tueddiad rhywiol. Daeth y Cyngor yn Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn 2013. Drwy gydol 2014, gweithiodd y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb â thîm gweithle Stonewall er mwyn datblygu arferion sy'n cefnogi gweithwyr LGBT.

### **Cyflawni Strategaethau'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i drigolion er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer cynllunio, blaenoriaethu a nodi meysydd i'w gwella a gwasanaethau i'w newid, gosod a monitro safonau perfformiad a mesur ansawdd y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Mae ymgynghoriadau a gwaith ymgysylltu diweddar wedi canolbwyntio ar nifer o anghenion o ran newid gwasanaethau, gan gynnwys darpariaeth meithrinfeydd a'r gwasanaeth cerdd. Yn ogystal ag ymgynghoriadau ynghylch newid gwasanaethau, mae'r Garfan Ymgynghori wedi cynnal neu gefnogi ymgynghoriadau sy'n ymwneud â; twristiaeth, achlysuron, cyllid, holiadur ansawdd bywyd a chyfranogi mewn gwasanaethau hamdden, yn ogystal â nifer o ymgynghoriadau fel lleoliadau Gwasanaethau yn y Gymuned, fel Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a byw yn annibynnol a byw â chymorth.

Nodwyd mai un o'r ffyrdd gorau o ymgynghori â phobl leol yw drwy Banel y Dinasyddion. Mae hyn yn elfen allweddol o ran diwallu anghenion ymgynghori'r Cyngor ac mae'n sicrhau 'llais y cyhoedd' credadwy. Mae hyn yn golygu bod gan ragor o bobl gyfle i ddylanwadu'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu mewn ffordd sy'n fwy pendant ac uniongyrchol. Mae Panel y Dinasyddion wedi cael ei adnewyddu. Erbyn hyn, mae'n banel ar y cyd sy'n cael ei ddefnyddio gan bartneriaid ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Credwyd bod y Panel yn ffordd effeithiol o gefnogi gwasanaethau, rheolwyr a Chynghorwyr etholedig i ddod i benderfyniadau ar sail barn wybodus leol. Mae'r Panel wedi bod yn rhan hanfodol o'r Cyngor i allu cyflawni ymchwil ar sail gwybodaeth. Mae'r Panel wedi cael ei adnewyddu er mwyn cadw ei farn yn berthnasol a bydd 1,200 o drigolion Rhondda Cynon Taf yn cynnig eu sylwadau. Maen nhw'n drigolion sy'n gynrychioladol o'r boblogaeth sydd â diddordeb yng ngwaith y Cyngor ac sy'n fodlon cyfrannu.

Yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i welliant parhaol, caiff yr adborth o'r gweithgareddau ymgysylltu ei ddefnyddio i helpu gwerthuso'r effaith y mae gwaith y Cyngor yn ei chael ar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Erbyn hyn, mae'r gwaith gwerthuso yn gysylltiedig â'n hwb ymgynghori ar-lein, lle mae mecanwaith sy'n gwerthuso gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei gadw a'i anfon yn awtomatig at swyddogion pan fydd ymgynghoriadau yn dod i ben.



Caiff dull cyfun o ran ymgynghori ac ymgysylltu ei ddatblygu drwy Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ar y cyd, a chaiff yr adborth ei adrodd i Fwrdd Cydweithio Cwm Taf. Bwriad y prosiect yw sicrhau dull effeithlon ac effeithiol tuag at ymgynghori ac ymgysylltu i bartneriaid Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. I wneud hyn, byddwn ni'n helpu pobl eraill i ddeall bod angen cynnwys pobl a defnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc: Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud â gweithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau.

Bydd partneriaid Bwrdd Gwasanaeth Lleol ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn sicrhau bod y math hwn o ymgysylltu â'r cyhoedd yn dod yn fusnes craidd. Mae hyn yn golygu bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn hanfodol wrth nodi, cynllunio, comisiynu, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

**Cam 1:** Bydd holl wasanaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl a chymunedau yn deall yr angen i ymgysylltu yn y modd hwn gyda'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu.

**Cam 2:** Bydd holl wasanaethau yn defnyddio Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, ac Egwyddorion Cyfleoedd Cyfartal fel canllaw ar gyfer cynnwys pobl yn eu gwasanaethau, a byddan nhw'n gweithio tuag at egwyddorion cyd-gynhyrchu.

**Cam 3:** Bydd cynlluniau strategol, corfforaethol a gweithredol yn sicrhau bod holl bartneriaid yn dwyn eu hunain i gyfrif o ran ymgysylltu â'r cyhoedd, yn y camau a nodwyd, gan hwyluso dulliau cyd-gynhyrchu gyda phobl a chymunedau i sicrhau gwell deilliannau.

**Cam 4:** Bydd partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cydweithio ag aelodau'r gymuned a defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu dull sy'n cefnogi pobl i lunio gwasanaethau a'r cymunedau maen nhw'n byw ynddyn nhw, ac yn dwyn eraill i gyfrif.

**Cam 5:** Bydd cyfranogiad, ymgysylltiad ac adborth yn cael eu cynllunio mewn modd amserol, gan gysylltu ag arweinwyr cyfranogi sydd wedi'u nodi o fewn holl wasanaethau.

**Cam 6:** I wneud hyn, byddwn ni'n helpu pobl eraill i ddeall bod angen cynnwys pobl a defnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc:

**“Cyflawni Newid” – Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Rhondda Cynon Taf**

Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd partneriaid yn mynd i'r afael â materion allweddol y Fwrdeistref Sirol, a fydd yn y pendraw, yn sicrhau y bydd yr ardal yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld â hi.

Mae hyn yn ddull newydd am ei fod yn disodli nifer o gynlluniau partneriaeth gwahanol, gan gynnwys:

- Strategaeth Gymunedau
- Cynllun Plant a Phobl Ifainc
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Cynllun Diogelwch yn y Gymuned
- Strategaeth Tai Lleol

Mae Bwrdd Gwasanaethu Lleol Rhondda Cynon Taf yn cynrychioli sefydliadau partner yr ardal. Y Cyngor yw prif gorff y cynllun hwn. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros weithredu drwy'r sefydliadau partner. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys: Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf; Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Cwm Taf; Prif Uwch-Arolygydd Cyfadran y Gogledd ar gyfer Heddlu De Cymru; Cadeirydd Interlink (Cyngor Gwirfoddol y Sir); a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru.

**Ein gweledigaeth yw bod:**

***Pobl yn Rhondda Cynon Taf yn byw bywydau diogel, iach a ffyniannus***

Mae'r Cynllun yn nodi sut mae llwyddo yn y meysydd hyn a sut i fesur llwyddiant. Mae'r Cynllun hefyd yn amlinellu'r hyn sydd wedi cael ei ddarparu yn ôl y themâu: Diogelwch, Iechyd a Ffyniant. Mae modd gweld copi llawn o 'Cyflawni Newid' – Cynllun Integredig Sengl Rhondda Cynon Taf drwy ddilyn y ddolen isod:

<http://www.staging.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Singleintegratedplan.aspx>

Mae cyfraniad y gymuned a chydraddoldeb yn sail i ddarpariaeth y Cynllun. Roedd y Cyngor wedi ymgysylltu â'r cyhoedd mewn sawl ffordd yn ystod datblygiad y Cynllun.

Cafodd Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â Chynllun Integredig Sengl ei baratoi yn 2014. Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn gyfle i ystyried yr hyn rydyn ni wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i ystyried a ydyn ni'n gwneud gwahaniaeth ar gyfer pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf, ac i ystyried yr hyn mae angen i ni ganolbwyntio arno yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r adroddiad ar gael o'r ddolen isod:

<http://www.staging.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Singleintegratedplan.aspx>

## **Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2015/16**

Mae Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol 2015/16 yn asesu sut mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau ar gyfer 2014/15.

Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau, mae 'gwerthusiadau perfformiad' manwl wedi'u paratoi, sy'n nodi'r cynnydd yn ystod 2014/15. Ewch i:

[www.rctcbc.gov.uk/AllPerformanceEvaluations](http://www.rctcbc.gov.uk/AllPerformanceEvaluations)

Mae'r gwerthusiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i datblygu i ddangos ein cynnydd, gan gynnwys Gwybodaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru ac Uned Data Llywodraeth Leol (UDDC). Bob blwyddyn, mae pob cyngor yng Nghymru yn cyflwyno data i Lywodraeth Cymru ac UDDC sy'n dangos cynnydd gwasanaethau pwysig. Rydyn ni'n defnyddio rhywfaint o'r data cenedlaethol hwn yn ein cynlluniau blaenoriaeth ac yn cymharu ein cyflawniad â chyflawniad eraill. Gallwch weld y data a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 ar:

[www.rctcbc.gov.uk/statutoryPIs](http://www.rctcbc.gov.uk/statutoryPIs)

I grynhoi, dyma o'r 43 o'r dangosyddion a'r mesuryddion lle gallwn gymharu ein data ar gyfer 2014/15 data â'r cymariaethau diweddaraf ar gyfer Cymru gyfan yn 2013/14:

- Roedd 29 o'r mesuryddion yn dangos bod cyflawniad wedi gwella, er ein bod ni'n dal i fod gyda'r gwaethaf yng Nghymru ar gyfer 3 o'r mesuryddion hyn,
- Roedden ni ymysg y gorau yng Nghymru ar gyfer 11 o'r 43 dangosydd. Roedd hyn yn well na'r llynedd pan roedden ni ymysg y gorau yng Nghymru ar gyfer 7 dangosydd,
- Roedden ni gyda'r gwaethaf yng Nghymru ar gyfer 7 o'n dangosyddion, sy'n well na'r llynedd pan roedden ni gyda'r gwaethaf yng Nghymru ar gyfer 14 o'r mesurau,
- Dangosodd cyflawniad yn erbyn 13 o'n mesurau bod cyflawniad wedi gwaethygu, ac roedd 4 o'r mesurau wedi disgyn i fod gyda'r gwaethaf yng Nghymru.

I grynhoi, wrth gymharu ein cyflawniad â'r ffigurau cymharol ar gyfer Cymru gyfan y llynedd, roedden ni gyda'r gwaethaf yng Nghymru o ran:

- Yr amser y mae'n ei gymryd i ni gael trigolion hŷn sydd angen cymorth pellach gartref neu mewn cartref gofal allan o'r ysbyty
- Niferoedd uchel y trigolion rydym yn eu cynorthwyo mewn cartrefi gofal
- Nifer uchel y troeon y mae'r plant sydd yn ein gofal yn gorfod newid ysgol
- Adolygu cynlluniau gofal ein cleientiaid mewn oed
- Asesu anghenion pobl sy'n gofalu am oedolion
- Cyhoeddi datganiadau terfynol o anghenion addysg arbennig cyn pen 26 wythnos
- Eiddo gwag yn y sector preifat yn cael eu dychwelyd i feddiannaeth o ganlyniad i'n gweithredoedd

Ond, roedden ni gyda'r gorau yng Nghymru o ran:

- Sgôr pwyntiau cyfartalog disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4
- Sgôr pwyntiau cyfartalog y disgyblion sydd yn ein gofal ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4
- Y disgyblion sydd yn ein gofal sy'n ymadael â'n hysgolion â chymhwyster cymeradwy
- Y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 (iaith gyntaf)
- Presenoldeb ein disgyblion oed cynradd yn yr ysgol
- Atal Digartrefedd ar gyfer aelwydydd sydd mewn trallod am o leiaf 6 mis
- Hyd yr amser y mae'n ei gymryd i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Sicrhau bod y plant sydd yn ein gofal yn cael llai na thri lleoliad mewn blwyddyn
- Canran y trigolion dros 60 oed sydd â thocyn mantais y bysiau am ddim
- Glendid ein priffyrdd a archwiliwyd
- Nifer y bobl ifanc sy'n ymadael â'n gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed.

Mae'r adroddiad ar gael o'r ddolen isod:

<http://preview.staging.rctcbc.gov.uk/EN/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/Councilperformancemonitoringreports/RelatedDocuments/RCTCorporatePerformanceReport201516.pdf>

### **Diffyg Gwybodaeth ac Effeithiolrwydd**

Er y cafodd llawer o wybodaeth ei chasglu ar gyfer yr adroddiad hwn, rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n anodd casglu a monitro pob darn o wybodaeth o fewn Cyngor maint Rhondda Cynon Taf. Mae nifer o rwydweithiau traws-Gyngor, e.e. y Grŵp Swyddogion Anabled, eisoes yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu monitro a'u rhannu. Ond, rydyn ni'n

cydnabod bod angen gwneud rhagor i sicrhau dull cyson tuag at rannu gwybodaeth.

Er bod nifer o enghreifftiau o arferion da yn bodoli ynghylch darparu ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig gwahanol, does dim llawer o fonitro cydraddoldeb yn digwydd rhwng defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn golygu fod ddim data ar gael i'w gasglu a'i ddadansoddi.

I weld sut rydyn ni'n mynd i'r afael â hyn, ewch i adran 'camau pellach' yr adroddiad hwn.

## **6. Amcanion Cydraddoldeb**

Cafodd amcanion cydraddoldeb eu cynllunio i'n helpu i arwain a chyflawni'n well mewn perthynas â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2013/14, cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei adolygu. Arweiniodd nifer o ffactorau at yr adolygiad, gan gynnwys lansio Fframwaith Cymru Gyfan ar Droseddau Casineb a datblygu Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn ardal Cwm Taf. O ganlyniad i hyn, roedd hi'n amlwg bod angen diwygio amcanion i sicrhau bod ymdrechion yn canolbwyntio ar feysydd perthnasol. Cynhalion ni ymgynghoriad yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Dyma'r amcanion diwygiedig:

- Achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'.
- Datblygu trefniadau monitro mwy cadarn
- Cyflog y Rhywiau

## **Cyfuno achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'.**

### **Beth rydyn ni wedi'i gyflawni**

#### ***Trosedd Casineb***

Mewn ymateb i'r Fframwaith Cymru Gyfan ar Droseddau Casineb, mae Strategaeth Troseddau Casineb wedi'i datblygu yng Nghwm Taf. Mae cynllun gweithredu yn cydfynd â'r strategaeth, ac mae wedi cyflawni'r canlynol:

- Rydyn ni wedi dylunio logo troseddu casineb penodol newydd, yn ogystal â pharatoi taflenni troseddau casineb sydd wedi'u rhannu â'r cyhoedd.
- Mewn partneriaeth â Swyddogion Troseddau Casineb Heddlu De Cymru (HDC), rydyn ni wedi codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb mewn ysgolion a grwpiau cymunedol.
- Rydyn ni wedi sefydlu 'Prosiect Dioddefwyr Troseddau Casineb' gyda swyddogion troseddau casineb HDC.
- Caiff ystadegau troseddau casineb HDC eu craffu yn Fforwm Amrywioldeb Amlasiantaeth.
- Cynhaliodd Swyddog Troseddau Casineb HDC a Swyddog Cydlyniant Cymunedol RhCT 30 o ymweliadau sicrwydd.
- Caiff gwaith ar hyd y rhanbarth ei arwyddbostio i Ganolfan a Gwasanaeth Cymorth Adrodd Troseddau Casineb Cymru Gyfan.
- Caiff adroddiadau ar gynnydd eu cyflwyno i Grŵp Cynghori De Cymru Ddiogelach (SSWAG) a Grŵp Strategaeth Partneriaeth Cymunedau Diogel (Bwrdd Diogelu).
- Mae sesiynau ymwybyddiaeth troseddau casineb wedi'u cyflwyno i dros 400 o staff sy'n rhan o'n Gwasanaethau i Blant a Chymunedol.
- O ganlyniad i'r sesiynau ymwybyddiaeth, bu cynnydd yn nifer y troseddau/digwyddiadau casineb sy'n cael eu hadrodd ar draws Rhondda Cynon Taf. Nodwyd troseddau casineb yn y sesiynau hyn hefyd.
- Cafodd Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb ei hyrwyddo ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Nodon ni Ddiwrnod Coffáu'r Holocost gydag achlysur oedd yn berthnasol i droseddau casineb heddiw. Codwyd ymwybyddiaeth hefyd am sut i adrodd am Droseddau Casineb.

## **Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol**

### ***Herio Ymddygiad***

Rydyn ni wedi cynnig hyfforddiant Urddas a Pharch i dros 180 o weithwyr. Mae'r hyfforddiant yn ystyried ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond mae hefyd yn herio ystrydebau a stigma. Sesiwn hyfforddi ryngweithiol yw hi sy'n cynnig llawer o gyfleoedd i gyfranogwyr herio'u rhagdybiaethau. Mae adborth o'r hyfforddiant yn hynod bositif. Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y byddan nhw'n myfyrio ar y sesiwn ac yn newid eu hymddygiad yn y gweithle. Dengys gwerthuso hir dymor fod hyn yn wir. Mewn rhai amgylchiadau, mae achosion Urddas yn y Gwaith wedi cynyddu am fod gweithwyr yn fwy hyderus wrth adrodd am ymddygiad amhriodol.

Gofynnodd dau faes gwasanaeth, sef Vision Products a Chymunedau yn Gyntaf i'w holl weithwyr fynd ar yr hyfforddiant hwn. O ganlyniad i'r hyfforddiant, mae pob gweithiwr Cymunedau yn Gyntaf wedi arwyddo ymgyrch #PaidSefylo'rNeilltu Stonewall ac ymrwymo i herio iaith ymddygiad amhriodol yn y gweithle a hefyd mewn lleoliadau cymunedol. Law yn llaw â hyn, ariannodd Cymunedau yn Gyntaf gylchgrawn cymunedol o'r enw #Respect, a ddatblygwyd gan y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r cylchgrawn hwn yn anelu at ddileu mythau a herio ystrydebau. Mae wedi'i ddisbarthu yn eang ledled ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol. Mae gweithwyr Cymunedau yn Gyntaf hefyd wedi gwirfoddoli i ddod yn gynghreiriaid a sefydlu Rhwydwaith Cynghreiriaid yn y Cyngor.

